# Polisi Hygyrchedd Digidol

Adolygwyd ddiwethaf: 15 Rhagfyr 2021

## 1. Hyfforddiant

1.1. Disgwylir i holl ddefnyddwyr y Systemau Rheoli Cynnwys (CMS) gael hyfforddiant, sef 'Hyfforddiant Hygyrchedd Digidol i Ddefnyddwyr CMS'.

1.2. Disgwylir i'r holl staff sy'n creu cynnwys a ychwanegir at wefan y Brifysgol gan ddefnyddwyr CMS gael hyfforddiant, sef 'Hyfforddiant Hygyrchedd Digidol i Reolwyr'.

1.3. Disgwylir i'r holl staff sy'n creu cynnwys ar Blackboard fynd i sesiynau hyfforddiant 'Creu Deunyddiau Dysgu Hygyrch', neu sesiynau pwrpasol yn yr adrannau

## 2. Cyfarwyddyd

2.1. Bydd cyfarwyddyd a chyngor ar gael i'r holl staff er mwyn eu galluogi i fodloni safonau hygyrchedd.

## 3. Cynnwys Presennol

3.1. Disgwylir i holl ddefnyddwyr CMS adolygu'r cynnwys a grëwyd ganddynt cyn mis Medi 2019 er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch.

3.2. Lle y bydd cynnwys presennol y CMS yn cael ei roi i fod ar gael fel archif ac felly y tu allan i gwmpas y ddeddfwriaeth, bydd y defnyddwyr yn hysbysu'r tîm Hygyrchedd Digidol, er mwyn i'r gwiriadau cydymffurfio ddiystyru'r cynnwys hwn.

3.3. Lle bydd cynnwys CMS yn cael ei ddefnyddio o hyd, caiff y cynnwys ei ddiweddaru er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch, gyda chymorth y tîm Hygyrchedd Digidol.

3.4. Disgwylir i staff sy’n creu cynnwys ar Blackboard adolygu eu deunyddiau dysgu cyn mis Medi 2019 er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch.

3.5. Caiff deunyddiau dysgu presennol eu diweddaru er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch, gyda chefnogaeth y Tîm Hygyrchedd Digidol.

## 4. Cynnwys Newydd

4.1. Disgwylir i holl ddefnyddwyr y CMS ddilyn y canllawiau a ddarperir er mwyn sicrhau bod eu cynnwys mor hygyrch â phosibl.

4.2. Disgwylir i’r holl staff sy’n creu deunyddiau dysgu ddilyn y canllawiau a ddarperir er mwyn sicrhau bod eu cynnwys mor hygyrch â phosibl.

## 5. Gwefannau a Systemau Newydd ar y We

5.1. Mewnol

5.1.1. Wrth greu gwefannau neu systemau newydd ar y we, ystyrir hygyrchedd digidol yn gynnar yn ystod y broses.

5.1.2. Caiff gwefannau a systemau eu profi yn unol â safon hygyrchedd digidol Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys ar y We (WCAG) 2.1 AA, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

5.1.3. Caiff Datganiad Hygyrchedd ei lunio wrth ddatblygu gwefan neu system, a bydd y datganiad hwn ar gael wrth lansio’r wefan neu system newydd.

5.2. Trydydd parti

5.2.1. Rhaid i unrhyw drydydd parti a gyflogir i lunio gwefannau neu systemau ar y we sicrhau eu bod yn bodloni safon hygyrchedd digidol WCAG 2.1 AA.

5.2.2. Rhaid cael tystiolaeth fod y wefan neu'r system ar y we yn cydymffurfio â'r safonau cyn derbyn y wefan neu'r system.

## 6. Caffael

6.1. Wrth brynu systemau ar y we a meddalwedd, ystyrir hygyrchedd digidol yn gynnar yn y broses.

6.2. Caiff gofynion hygyrchedd digidol eu cynnwys yn y manylion a ddefnyddir yn ystod y broses gaffael bob tro.

6.3. Ni phrynir systemau na meddalwedd nad ydynt yn bodloni safonau hygyrchedd oni bai nad oes dewis ymarferol arall.

6.4. Wrth adolygu neu adnewyddu systemau a meddalwedd ar y we, ystyrir hygyrchedd digidol yn gynnar yn ystod y broses.

6.5. Oni bydd systemau ar y we neu feddalwedd yn bodloni safonau hygyrchedd, ni fyddant yn cael eu hadnewyddu oni bai nad oes dewis ymarferol arall.

## 7. Cyfathrebu

7.1. Nodir dulliau cyfathrebu yn glir er mwyn i ddefnyddwyr allu cysylltu â ni er mwyn gwneud ymholiadau neu gwynion mewn perthynas â hygyrchedd digidol.